**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/LW/2768/21

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

SeneddClimate@senedd.wales

21 Medi 2021

Annwyl Llyr

Rwyf yn falch o roi gwybod ichi mai y Dr David Clubb rwyf wedi ei benodi fel Cadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW). Wedi derbyn adroddiad craffu boddhaol gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, bwriadaf benodi Dr Clubb am dair mlynedd.

Mae NICW wedi gweithredu gyda llai o gapasiti ers mis Mawrth 2020, er ei fod yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad ar Gyfathrebu Digidol yn ystod hydref 2020. Ers dod yn gyfrifol am NICW yn gynharach yr haf hwn rwyf wedi cyfarfod â chomisiynwyr ac wedi trafod sut i ail-ysgogi a ffocysu swyddogaeth NICW. Fy mhrif flaenoriaeth yw'r ymrwymiad i gyflawni ar draws yr agenda datgarboneiddio ac felly rwyf yn gofyn i NICW ganolbwyntio ar hyn, yn enwedig ar botensial technolegau adnewyddadwy. Rwy'n ymwybodol bod NICW wedi colli rhywfaint o fomentwm dros y flwyddyn ddiwethaf, a gallai ymgyrch recriwtio hir ar gyfer cadeirydd newydd waethygu yr ansicrwydd ynghylch diben NICW.

Gyda cylch gwaith a phwrpas wedi'i ailffocysu, pwyslais ar yr agenda datgarboneiddio ac ystyried canlyniadau ymgyrchoedd recriwtio blaenorol, penderfynais benodi Dr David Clubb yn uniongyrchol fel cadeirydd. Mae Dr Clubb yn dod â chyfoeth o arbenigedd o'r sector ynni adnewyddadwy ynghyd ag awydd i gyflawni ar asesu seilwaith Cymru yn y dyfodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gennyf ddiddordeb ym marn y pwyllgor ar addasrwydd Dr Clubb ar gyfer y rôl a'i uchelgeisiau ar gyfer y Comisiwn.

Edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad eich gwrandawiad cyn penodi.

Yn gywir



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change